



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



Papur hysbysu tystiolaeth

Llesiant ac effaith Covid-19 a Brexit

www.wcpp.org.uk

Llesiant ac effaith Covid-19 a Brexit



Beth yw'r cysylltiad
rhwng **ffyniant**
economaidd a **lles**?



Sut mae Brexit
a Covid-19 wedi
effeithio ar ffyniant
economaidd?

Sut mae Covid-19 a
Brexit wedi effeithio ar
wahanol agweddau ar
llesiant yng Nghymru?



Sectorau
yr effeithiwyd
arnynt
gan Brexit



Sectorau yr
effeithiwyd
arnynt gan
Covid-19



Amodau
materol
fel ysgogwyr
lles



Mesurau
ansawdd bywyd
fel ysgogwyr
lles



Beth yw'r bylchau
tystiolaeth, ansicrwydd
a'r meysydd i'w
harchwilio?



Sut y gall yr adferiad
Covid-19 a'r cyfnod
pontio ar ôl Brexit
gefnogi lles?

Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus asesu lles pobl eu hardaloedd bob pum mlynedd, yn unol â chylchoedd etholiadau lleol. Gofynnwyd i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gefnogi'r broses hon drwy baratoi sesiynau briffio sy'n edrych ar dueddiadau a thystiolaeth genedlaethol ar draws meysydd **llesiant a chydaddoldeb**, **llesiant diwylliannol**, ac **effeithiau Covid-19 a Brexit ar lesiant**.

Mae'r papur briffio hwn yn canolbwyntio ar lesiant a sut mae Covid-19 a Brexit wedi effeithio arno. Lle bo modd, trafodwyd effeithiau Covid-19 a Brexit ar wahân, ond mae meysydd oedd yn gorgyffwrdd wedi cael eu trafod ar wahân hefyd. Mae'r briff hwn yn ystyried y cysylltiad rhwng lles a ffyniant economaidd, gan ddadlau, oherwydd bod sectorau wedi eu crynhoi yn ddaearyddol, bod effeithiau economaidd Covid-19 a Brexit yn wahanol ar draws rhanbarthau a lleoedd yng Nghymru. Gan fod tystiolaeth yn dod i'r amlwg yn y ddau faes a bod y farchnad lafur yn symud yn gyflym, mae'r adroddiad yn cynrychioli'r sefyllfa adeg ei gyhoeddi. Cyflwynwyd data ar gyfer y Deyrnas Unedig lle nad oes data ar gyfer Cymru a lle mae'r rhain yn rhoi syniad o effaith debygol Covid-19 a Brexit yng Nghymru. Dylid darllen y briff hwn ochr yn ochr â'r ddwy sesiwn friffio arall yn y gyfres.

Prif nod y briff hwn yw archwilio'r cwestiynau allweddol canlynol:

1. Beth yw'r cysylltiad rhwng ffyniant economaidd a lles?
2. Sut mae Brexit a Covid-19 wedi effeithio ar ffyniant economaidd?
3. Sut mae Covid-19 a Brexit wedi effeithio ar wahanol agweddau ar lesiant yng Nghymru?
 - 3.1 Amodau materol fel ysgogwyr llesiant
 - 3.2 Mesurau ansawdd bywyd fel ysgogwyr llesiant
4. Ar ôl trafod y tri chwestiwn allweddol, mae'r briff yn edrych ar y bylchau tystiolaeth, yr ansicrwydd, a'r meysydd i'w harchwilio.
5. Yn olaf, mae'r casgliad yn darparu crynodeb o'r brif dystiolaeth ac yna'n trafod sut y gall yr adferiad Covid-19 a'r cyfnod pontio ar ôl Brexit gefnogi lles.

Canfyddiadau ac argymhellion allweddol

- Mae Covid-19 a'r ymadawiad wedi **effeithio'n niweidiol ar economi Cymru mewn modd a fydd yn gwaethygu anghydraddoldeb**. Gan y bydd goblygiadau Covid-19 a Brexit yn niweidiol i economi Cymru dros y tymhorau byr, canolig a hir, bydd effaith ar lesiant, hefyd.
- Bydd effeithiau negyddol Covid-19 a/neu adael Undeb Ewrop yn waeth mewn rhai rhanbarthau.
 - Ar sector llety a bwyd y wlad mae Covid-19 wedi **effeithio fwyaf ymhlith y sectorau** sydd wedi cau o ganlyniad i'r cyfyngiadau. Gall hynny gyfrannu'n fwy at yr economi leol mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol.
 - Mae **sectorau amaeth a bwyd, cerbydau, dur, gweithgynhyrchu ac ymwelwyr** wedi dioddef yn fawr o ganlyniad i adael Undeb Ewrop. Mae'r sectorau hynny ledled Cymru, yn arbennig yn y de.
- Drwy'r effaith negyddol ar incwm, cyfoeth, swyddi ac enillion, anghydraddoldeb, diweithdra, iechyd a chyrhaeddiad addysgol; **mae Covid-19 a Brexit wedi arwain at lefelau is o lesiant**.
- Wrth ddadansoddi effaith Covid-19 a Brexit ar newidiadau i lesiant, dylid ystyried **nodweddion amrywiol a chroestoriadol gwahanol bobl a lleoedd**.
- Mae'r adferiad ar ôl dau ysgytwad economaidd Covid-19 a gadael Undeb Ewrop yn cynnig **cyfleoedd i Gymru fynd i'r afael â heriau strwythurol**. Ansawdd swyddi newydd, gwaith teg a thlodi ymhlith pobl sy'n gweithio yw'r prif faterion i'w hystyried.

Argymhellwn ni y dylai byrddau gwasanaethau cyhoeddus gymryd y camau canlynol:

- Ystyried sut y gall y **nodweddion amryfal a'r rhai sy'n ymwneud â'i gilydd ymysg pobl wahanol** a mannau gwahanol ddylanwadu ar ddeilliannau lesiant ac effeithio ar anghydraddoldeb cyfredol.
- **Map Mapio nodweddion yr ardal (megis natur y boblogaeth, diwydiannau a'r isadeiledd) a'r peryglon cysylltiedig** yn sgil Covid-19 a/neu adael Undeb Ewrop i ddeall yr effeithiau tebygol yn well a llywio penderfyniadau ar bolisiâu.
- Yn ôl y data hynny, **ystyried camau a fydd yn creu swyddi lleol, yn sbarduno twf ac yn effeithio'n ehangach** ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.
- **Buddsoddi yn yr isadeiledd cymdeithasol** (gan gynnwys gweithgareddau, cyrff a chyfleusterau a fydd yn helpu i greu, meithrin a chynnal cysylltiadau cymdeithasol cymuned) a chydabod eu bod yn hanfodol i'r modd y gall economïau a chymunedau lleol weithredu (*Left Behind Neighbourhoods, 2021*).
- **Ychwanegu at brosesau dadansoddi data trwy fanteisio ar arbenigedd lleol** i nodi unigolion a chymunedau mae Covid-19 a'r ymadawiad ag Undeb Ewrop wedi effeithio'n fawr arnynt.

1. Beth yw'r cysylltiad rhwng ffyniant economaidd a lles?

Yn rhyngwladol, mae ffyniant economaidd yn un o'r ysgogwyr mwyaf o wahaniaethau rhwng gwledydd sydd â lefelau lles uchel ac isel. Mae hyn oherwydd **bod ffyniant economaidd a lles yn atgyfnerthu ei gilydd ac yn creu 'cylch daionus'** – gallant weithio gyda'i gilydd er budd unigolion a chymunedau ([OECD, 2019](#)). Fodd bynnag, er mwyn deall eu perthynas a sicrhau bod y 'cylch daionus' yn parhau, mae angen ystyried natur twf economaidd a beth rydym yn ei olygu gyda ffyniant economaidd, ar lefel yr unigolyn a'r gymuned. Mae hefyd yn bwysig ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a thymor hir ffyniant economaidd ar lesiant.

Ar lefel unigol, mae ffyniant economaidd yn dda i les, ond nid yw'n gwarantu llesiant uchel, gan ei fod yn dibynnu ar:


- Ffyniant cychwynnol (mae cynnydd mewn cyfoeth yn cael effaith gymharol fwy ar lesiant unigolion ar incwm is);
- Canfyddiad unigolion o gyfoeth cymharol pobl eraill (gweler y **briff llesiant a chydraddoldeb**); a
- P'un a yw cynnydd mewn ffyniant yn arwain at gynnydd mewn gwariant cadarnhaol sy'n cyfrannu at lesiant ([What Works Wellbeing, 2018](#)).

Mae gostyngiad mewn incwm unigolyn hefyd yn cael mwy o effaith negyddol ar lesiant nag effaith gadarnhaol cynydd mewn incwm.

Mae ffyniant economaidd yn dylanwadu ar lesiant unigolyn trwy ei effaith ar gymunedau ac ardaloedd lleol, ynghyd â'i effaith ar gyllid ac amgylchiadau personol. Mae ymchwil wedi dangos bod lefel lles pobl yn gallu cael ei gysylltu â newidiadau mewn agweddau ar ffyniant economaidd neu amddifadedd ar y lefel leol ([Curtis and Congdon, 2019](#)).¹ Mae [Ffigur 1](#) yn mapio'r 1,909 o Ardaloedd Allbwn Uwch Isaf (LSOAs) yng Nghymru yn ôl eu lefelau cymharol o amddifadedd gan ddefnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Mae'r lliwiau tywyllach yn dynodi ardaloedd mwy difreintiedig ac maent wedi eu clystyru mewn dinasoedd a rhanbarth De Cymru.

¹ Defnyddiodd hyn Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, sy'n rhestru ardaloedd (Ardaloedd Allbwn Uwch Is (LSOA)) yn ôl wyth parth amddifadedd (incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol, yr amgylchedd ffisegol a thai).

Ffigur 1: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru



Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru \(2019a\)](#)²


² I gael mwy o wybodaeth am ffynonellau data ac argaeledd gweler yr [Atodiad](#).

Mae cyfyngiadau cynnyrch mewnwladol crynswth (GDP) – fel mesur o ffyniant economaidd – o ran methu nodi ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant unigolion yn cael eu cydnabod yn eang. Mae'r Sefydliad dros Gydweithredu a Datblygu Economaidd wedi llunio fframwaith llesiant ar gyfer mesur perfformiad y tu hwnt i gynnyrch crynswth mewnol [Ffigur 2 \(OECD, 2019, p15\)](#). Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar bobl, gan nodi sut a lle mae'r deilliannau a gwahaniaethu rhwng lles gwrthrychol a goddrychol. Mae'n dangos nad dim ond ffactorau economaidd fydd yn dylanwadu ar lesiant unigolion a chymunedau.

Adlewyrchir y fframwaith yn [nangosyddion llesiant](#) Cymru a [mesurau llesiant](#) y Deyrnas Unedig.

Mae gweddill yr adroddiad yn defnyddio fframwaith yr OECD i ddangos sut mae Brexit a Covid-19 wedi effeithio ar les unigolion a chymunedol yng Nghymru, gan eu cysylltu â [dangosyddion llesiant cenedlaethol Cymru](#) lle bo hynny'n bosibl. Mae ffactorau ansawdd bywyd ac amodau materol yn cael eu hail-fframio fel ysgogwyr lles.

Ffigur 2: Fframwaith mesur llesiant y Sefydliad dros Gydweithredu a Datblygu Economaidd



2. Sut mae Brexit a Covid-19 wedi effeithio ar ffyniant economaidd?

Mae Brexit a Covid-19 yn siociau mawr sydd wedi cyfuno i effeithio'n sylweddol ar holl economi Cymru a'r Deyrnas Unedig ([Ffigur 3](#)) ([Tetlow and Pope, 2020](#)). O ran y pandemig, mae'r effaith negyddol hon oherwydd effaith cyfyngiadau iechyd cyhoeddus llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig, gorfod cau rhai sectorau, a newidiadau i ymddygiad pobl oherwydd y pandemig. O ran Brexit, mae'r ansicrwydd economaidd cysylltiedig wedi arwain at grebachiad economaidd sydyn. Bydd y ddau sioc yn effeithio'n sylweddol ar les yn y tymor hir a'r tymor byr trwy eu heffeithiau ar amodau materol ac ansawdd bywyd fel gyrwyr lles, fel y nodwyd yn fframwaith yr OECD.


Mae [Ffigur 4](#) yn dangos effaith gyfunol Covid-19 a Brexit ar CMC yng Nghymru a Lloegr. Digwyddodd y gostyngiad chwarterol mwyaf o'i gymharu â'r un chwarter yn y flwyddyn flaenorol yn ail chwarter 2020 (gostyngiad o -19.1% yng Nghymru a -21.7% yn Lloegr, o'i gymharu â'r un chwarter yn 2019). Er bod adferiad cryf yn nhrydydd a (i raddau llai) phedwerydd chwarter 2020 yng Nghymru a Lloegr, roedd y newid canrannol chwarterol o CMC yn dal yn negyddol yn y ddwy wlad. Er bod twf economaidd y Deyrnas Unedig wedi codi 4.8% yn ail chwarter 2021, mae'r data'n awgrymu bod economi gyfan y Deyrnas Unedig 4.4% yn llai nag yn 2020 ([OECD, 2021](#)).³

Mae'r ddwy sioc wedi cael effeithiau negyddol sylweddol ar economi Cymru. Mae ffactorau strwythurol sy'n unigryw i economi Cymru wedi dylanwadu ar y canlyniadau lles penodol a brofwyd yng Nghymru oherwydd Covid-19 a Brexit, a byddan nhw'n cael eu trafod yn yr adrannau canlynol. Bydd y rhain yn cael effaith tymor byr, tymor canolig a thymor hir ar economi Cymru ([Ffigur 5](#)). Er bod maint llawn yr effaith yn dal i fod yn ansicr, maent yn sicr o waethygu'r anghydraddoldebau presennol. Mae'r ffactorau strwythurol hyn yn cynnwys:

- Poblogaeth sy'n heneiddio sydd ag iechyd gwaeth;
- Lefelau is o gyrhaeddiad a sgiliau addysgol na chyfartaledd y Deyrnas Unedig;
- Llai o ganolfannau economaidd mawr sydd â chysylltiadau da â gweddill Cymru neu'r Deyrnas Unedig;
- Dad-ddiwydiannu ar raddfa fawr a symud i ffwrdd o ddiwydiannau traddodiadol; a
- Datganoli cyllidol cyfyngedig ([Johnson and Tilley, 2021](#)).


³ Bydd dadansoddiad yn ôl cenedl a rhanbarth y Deyrnas Unedig ar gyfer chwarteri cyntaf 2021 yn cael ei ryddhau ym mis Tachwedd 2021.

Ffigur 3: Effaith Covid-19 a chytundeb masnach rydd Brexit ar economi'r Deyrnas Unedig



Ffynhonnell: Tetlow and Pope (2020)

Ffigur 4: Newid canrannol chwarterol mewn GDP o'r flwyddyn flaenorol ar gyfer Cymru a Lloegr



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021a)

Sectorau a fydd yn cael eu heffeithio

Mae dirywiad economaidd yn cael effaith wahanol ar wahanol sectorau, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Maent yn gallu bod yn gostus i weithwyr a busnesau, ac felly mae yna oblygiadau o ran llesiant. Mae deall yr effeithiau gwahanol ar sectorau penodol a ble maent wedi eu lleoli yn bwysig ar gyfer dylunio polisïau ar gyfer yr adferiad a pholisïau lleol i gefnogi lles. Mae'r adran hon yn ystyried sut yr effeithiwyd ar sectorau a gweithwyr ac yn tynnu sylw at rai o'r goblygiadau o ran llesiant. Yn dilyn [Johnson et al. \(2020\)](#), sectorau allweddol yw sectorau sydd naill ai'n gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru trwy bwysigrwydd diwylliannol neu gymunedol; yn gwneud cyfraniad penodol at arloesi; neu sydd â mantais gymharol.

Mae [Ffigur 6](#) yn dangos bod y sectorau sydd fwyaf agored i effaith economaidd negyddol Brexit wedi bod yn llai agored i effaith Covid-19 ([Tetlow and Pope, 2020](#); [De Lyon and Dhingra, 2020](#); [TUC, 2020](#)).

Mae'r sectorau hyn wedi eu crynhoi'n ddaearyddol mewn rhai rhanbarthau o'r Deyrnas Unedig, sy'n golygu bod effeithiau economaidd negyddol ac effaith Covid-19 a Brexit ar lesiant yn wahanol rhwng ac o fewn pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Covid-19

Mae cyfyngiadau iechyd cyhoeddus llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru a'r newidiadau yn ymddygiad pobl oherwydd y pandemig Covid-19 wedi cyfrannu'n sylweddol at y crebachiad economaidd yng Nghymru.

Er bod yr effaith wedi bod yn eang ac wedi cael ei theimlo yn y rhan fwyaf o sectorau, mae'r effaith wedi bod yn negyddol iawn ar y sectorau wnaeth orfod cau – y rhai oedd yn methu â gweithredu yn ystod y cyfnodau cloi.⁴ Y rhain yw:


- Manwerthu sydd heb fod yn fwy nac yn fferyllol;
- Cludiant teithwyr;
- Llety a bwyd;
- Teithio;
- Gofal Plant;
- Celfyddydau a hamdden;
- Gofal personol; a
- Gwasanaethau domestig

Ynghyd â galwedigaethau eraill sydd â gallu isel i gael eu cyflawni gartref, nodir mai'r rhain oedd y rhai mwyaf agored i effeithiau economaidd Covid-19 ([Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b](#)).

Oherwydd yr effaith anghytbwys hon y mae'r pandemig wedi'i chael ar lefel y sector a dosbarthiad rhanbarthol y sectorau hyn, mae'r argyfwng Covid-19 yn debygol o waethygu llawer o anghydraddoldebau a gwahaniaethau rhanbarthol presennol yng Nghymru, ac felly gael effeithiau gwahanol ar lesiant.

Roedd 16–17% o weithwyr Cymru yn gweithio mewn sectorau wnaeth orfod cau, sy'n uwch na'r Deyrnas Unedig gyfan a Lloegr ([Ffigur 7](#)) ([Rodríguez, 2020](#); [Tilley and Johnson, 2020](#); GW4 Pay Equality Consortium, 2021). Nid yw'n bosibl cymharu cyfran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n gweithio mewn sectorau oedd wedi cau ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru, oherwydd maint a thueddiadau sampl yn y data (GW4 Pay Equality Consortium, 2021 – ar y gweill). Fodd bynnag, mae'n debygol bod cyfran uwch o weithwyr mewn sectorau oedd wedi gorfod cau mewn ardaloedd sy'n fwy dibynnol ar dwristiaeth, a manwerthu a lletygarwch, megis trefi'r arfordirol ([WCPP, 2021](#)). Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod y rhain yn fwy amlwg mewn ardaloedd gwledig ([Sefydliad Bevan, 2020](#)).

⁴ Wedi ei ddiffinio yn ôl dosbarthiad codau SIC pedwar digid gan [Joyce a Xu \(2020\)](#).


Ffigur 5: Yr effeithiau tymor byr, tymor canolig a thymor hir ar economi Cymru**Ffigur 6: Effaith Covid-19 ar GDP a chytundeb masnach rydd Brexit mewn gwahanol sectorau yn y Deyrnas Unedig**

Mae proffil demograffig gweithwyr mewn sectorau oedd wedi gorfod cau yn wahanol ar draws y Deyrnas Unedig; ond yn gyffredinol, maent yn fwy tebygol o fod yn fenywod ac o dras Bangladeshaid, Pacistanaid a Du Caribiaidd. Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghymru, lle roedd dros ddwy ran o bump o'r gweithwyr a gyflogwyd mewn sectorau wnaeth orfod cau cyn y pandemig o dras Bangladeshaid ([Rodríguez, 2020](#)). Roedd y gweithwyr hyn yng Nghymru hefyd yn fwy tebygol o fod ar incwm is, yn fenywod, a thair gwaith yn fwy tebygol o fod o dan 25 oed ([Rodríguez, 2020](#); [GW4 Pay Equality Consortium, 2021](#); [Joyce and Xu, 2020](#); [Adams-Prassl et al., 2020](#)). Yng Nghymru, amcangyfrifwyd bod 61% o weithwyr 16–19 oed, a 33% o'r rhai rhwng 20 a 24 oed yn 2019 yn gweithio yn y sectorau hyn, sy'n uwch na'r grwpiau oedran eraill ([Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2020](#)).

Bydd hyn yn cael effaith hirhoedlog ar lesiant, gan fod cyfnodau o ddiweithdra yn effeithio ar ragolygon cyflogaeth a phŵer ennill yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o wiryn achos gweithwyr iau.

Mae'n debyg bod Covid-19 wedi effeithio'n fwyaf negyddol ar y **sector llety a bwyd** yng Nghymru. Er bod ailagor y sector hwn yn haf 2021 wedi lleddfu effaith y pandemig, nododd 48% o fusnesau yn sector llety'r Deyrnas Unedig ostyngiad o 20% neu fwy mewn elw ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn ar ddechrau Mehefin 2021 ([Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021c](#)). Bydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar lesiant gweithwyr yn y sector hwn ac ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n ddibynnol ar y sector hwn, a gellir disgwyl i hyn barhau yn y tymor byr i'r tymor canolig.

Ffigur 7: Cyfran o weithwyr y Deyrnas Unedig mewn sectorau cau i lawr fesul cenedl



Ffynhonnell: Consortiwm Cydraddoldeb Cyflog GW4 (2021)⁵

⁵ Mae'r amcangyfrifon yn Ffigur 7 yn wahanol i'r rhai yn y testun oherwydd methodolegau samplu, wedi eu gwaethgu gan faterion samplu a achosir gan y pandemig (gweler [Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020b](#)).

Dywedir bod busnesau yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i weithwyr wrth i'r cyfnod clo ddod i ben, gyda nifer y swyddi gwag yn y Deyrnas Unedig yn ail chwarter 2021 yn uwch na lefelau cyn-bandemig o 9.9%. Tyfodd swyddi gwag gyflymaf yn sector y celfyddydau, adloniant a hamdden (i fyny 330.4% o chwarter cyntaf 2021 a 6.2% o chwarter cyntaf 2020). Roedd gan y sectorau llety a gwasanaeth bwyd y nifer uchaf erioed o swyddi gwag (102,000), lle mae tystiolaeth o brinder staff medrus a gweithwyr yn dod o hyd i waith amgen cyn i'r sector ailagor ([Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021d](#)). Mae data Cymru ar gyfer chwarter cyntaf 2021 yn awgrymu bod cyfradd y ceisiadau i swyddi gwag yn arbennig o isel yn Sir Benfro a Chaerdydd ([Partington 2021](#)).

Bydd **effeithiau tymor hir** yn deillio'n bennaf o fusnesau hyfyw yn mynd allan o fusnes neu fusnesau newydd ddim yn cychwyn, a gweithwyr yn llai cynhyrchiol oherwydd colli sgiliau ac ymlyniad wrth y farchnad lafur yn ystod y cyfnodau cloi ([Tetlow a Pope, 2021](#)). Mae'n debygol y bydd effeithiau tymor hir y pandemig hefyd yn wahanol rhwng sectorau ac ardaloedd, yn dibynnu ar a fydd y pandemig yn newid patrymau ymddygiad. Er enghraifft, os yw pobl yn dewis parhau i weithio gartref, bydd llai o alw am fusnesau yng nghanol y ddinas ac am deithio ([Carter and Johnson, 2021](#)). I'r gwrthwyneb, gallai'r pandemig hefyd arwain at effeithiau hirdymor cadarnhaol, gan gynnwys galw newydd am gaffis a siopau sy'n agosach at gartrefi pobl (ibid).

Brexit

Yr Undeb Ewropeaidd yw'r partner masnachu rhyngwladol mwyaf gwerthfawr yn economaidd i Gymru a'r Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu y bydd Brexit yn parhau i gael effaith ddwys ar economi Cymru. Er bod ymdrechion i fodelu'r effaith tymor byr yn cynhyrchu canlyniadau ansicr, mae modelu helaeth o'r effaith tymor canolig tebygol ([Ffigur 6](#)) yn amcangyfrif y bydd hyn wedi ei ganoli mewn rhai sectorau.

Mae dadansoddi effeithiau sectoraidd Brexit yn darparu dealltwriaeth o'r aflonyddwch parhaus a achosir gan rwystrau masnach newydd, yr effeithiau tebygol ar fusnesau, cyflogaeth ac, yn ei dro, ar lesiant.

Y sectorau sy'n cael eu heffeithio fwyaf yw'r rhai sy'n dibynnu ar fewnforio ac allforio i'r Undeb Ewropeaidd, fel y sector amaethyddol a bwyd, a'r sectorau gweithgynhyrchu a dur. Mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau hyn yn codi oherwydd oedi ar y ffin, wrth i fasnachwyr addasu i ofynion tollau a rheoliadol newydd ac wrth i systemau TG newydd gael eu hymgorffori. Mae [Tabl 1](#) yn crynhoi effaith Brexit ar y sectorau hyn, yn ogystal â'r sector twristiaeth, oherwydd effaith gyfunol Covid-19 ([Johnson et al., 2020](#)). Bydd Brexit yn effeithio ar lesiant y rhai sy'n gweithio yn y sectorau hyn ac yn yr ardaloedd lle maent wedi eu crynhoi'n ddaearyddol, sy'n peryglu gwaethygu effeithiau negyddol presennol dad-ddiwydiannu ar raddfa fawr.

Bydd economi'r Deyrnas Unedig a lefelau lles hefyd yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan y cwymp sydyn yn nifer y gweithwyr tramor – yn enwedig gweithwyr o'r Undeb Ewropeaidd, sy'n cael eu rhwystro'n benodol gan Brexit. Mae'n arwain at alw arbennig o uchel mewn rhai sectorau, yn enwedig gweithgynhyrchu, trafnidiaeth, logisteg a warysau, ac arlwyo a lletygarwch. Yn gyffredinol, mae gan y sectorau hyn gyflogau isel gydag amodau gwael ([Webb et al., 2018](#)). Gallai lleddfu rheolau mewnfudo ar ôl Brexit, ynghyd â buddsoddiad pellach mewn sgiliau a hyfforddiant yn ddomestig, helpu i fynd i'r afael â'r prinder hwn yn y tymor hir. Yn ddiddorol, fodd bynnag, mae data preswyllo yn awgrymu y gallai cyflenwad gweithwyr yng Nghymru fod wedi cynyddu mewn gwirionedd, gan mai dyma'r unig ranbarth yn y Deyrnas Unedig sydd wedi gweld cynnydd yn nifer y preswylwyr a anwyd yn y Deyrnas Unedig (+24,767) a'r rhai a anwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig (+11,161) rhwng trydydd chwarter 2019 a thrydydd chwarter 2020 ([ESCOE, 2021](#)).

Tabl 1: Sectorau allweddol yng Nghymru a deimlodd effaith Brexit⁶

Sector	Cyflogeion	Lleoliad daearyddol
Amaethyddol a bwyd	Amaethyddiaeth: 37,300 o brif ffermwyr a 15,500 o weithwyr Cynhyrchu bwyd a diod: 24,500 o weithwyr	Gogledd a gorllewin Cymru – cynhyrchu defaid De a dwyrain Cymru – llaeth, garddwriaethol a mathau eraill o ffermydd Ardaloedd allforio bwyd môr arfordirol
Cerbydau modur	15,000 o weithwyr	Yn ne Cymru yn bennaf
Lled-ddargludyddion cyfansawdd	1,407 o weithwyr	Yng Nghaerdydd yn bennaf
Seiberddiogelwch	60 Busnes Bach a Chanolig	De Cymru
Nwyddau a gwasanaethau digidol a chreadigol	56,000 o weithwyr	Yn rhanbarth ehangach de Cymru yn bennaf, er bod y sector yn cael ei gynrychioli ledled Cymru (er enghraifft, Y Lolfa yng Ngheredigion)
Gwasanaethau ariannol a busnes proffesiynol	150,000 o weithwyr medrus	Caerdydd yn bennaf, ond rhai cwmnïau llai ledled Cymru
Gweithgynhyrchu	Dros 145,000 o weithwyr medrus	Cymoedd gorllewin Cymru a de Cymru, Sir y Fflint a Wrecsam
Gwyddorau bywyd	11,000 o weithwyr	Caerdydd yn bennaf a rhanbarth ehangach de Cymru
Dur	Yn cyflogi 7000 yn uniongyrchol ac yn cyflogi 10,000–20,000 yn anuniongyrchol	Safleoedd mawr Tata Steel ym Mhort Talbot, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam, a safleoedd llai yn Llanwern a Llanelli
Twristiaeth	170,000 o unigolion. Yn cyflogi 12.7% o gyfanswm gweithlu Cymru	Ledled Cymru, ond effaith benodol ar gymunedau gwledig, gan gynnwys y rhai yng Nghonwy (16.7% o gyfanswm y gweithwyr), Sir Benfro (15.1%), Ceredigion (13.2%), Gwynedd a Phowys. Mae'r cyfleoedd cyflogaeth amgen yn brin

⁶ Gweler Johnson et al. (2020) ar gyfer effeithiau penodol

Crynodeb o'r sectorau mae Covid a Brexit yn effeithio arnynt

- Mae bron i 70% o sectorau'r Deyrnas Unedig wedi cael eu heffeithio gan sioc economaidd negyddol Covid-19 a/neu Brexit.
- Mae Covid-19 wedi cael effaith anghymesur o negyddol mewn sectorau a gaewyd. Mae'n debyg mai'r **sector llety a bwyd** fu'r sector a gaewyd yr effeithiwyd arno'n fwyaf negyddol yng Nghymru. O ran ardaloedd yng Nghymru, mae'n debygol bod cyfran uwch o weithwyr mewn sectorau a gaewyd yn fwy dibynnol ar **dwristiaeth, a manwerthu a lletygarwch**, sy'n fwy tebygol o fod mewn **trefi arfordirol ac ardaloedd gwledig**.
- Ymhlith y sectorau allweddol mae Brexit wedi cael effaith negyddol arnynt mae'r **sectorau amaethyddol a bwyd, modurol, dur a gweithgynhyrchu a thwristiaeth**, sydd wedi eu lleoli ledled Cymru. Mae hefyd wedi arwain at oblygiadau mawr i sectorau sy'n dibynnu ar fewnforion ac allforion, a adlewyrchir yn lefelau'r traffig sy'n dod drwy **ddociau Caergybi, Abergwaun a Phenfro**.
- Yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, mae gweithwyr mewn sectorau a gaewyd yn fwy tebygol o fod yn **fenywod ac o dras Bangladeshaid, Pacistanaid a Du Caribiaid**. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn **weithwyr incwm is ac o dan 25 oed**.
- Mae effaith gyfunol Covid-19 a Brexit wedi arwain at **brinder gweithwyr** mewn rhai diwydiannau ledled y Deyrnas Unedig ond hefyd **gweithwyr yn methu â dod o hyd i swyddi**.

3. Sut mae Covid-19 a Brexit wedi effeithio ar wahanol agweddau ar lesiant yng Nghymru?

Mae [What Works Wellbeing \(2020a\)](#) wedi nodi nifer o fecanweithiau neu ysgogwyr lle mae Covid-19 a Brexit wedi effeithio ar lesiant unigolion a chymunedol, yn gysylltiedig â'r dirywiad mewn ffyniant economaidd. Mae'r rhain yn ymwneud â fframwaith yr OECD ar gyfer mesur lesiant ([Ffigur 2](#)), [dangosyddion lesiant Cymru](#) a [mesurau lesiant y Deyrnas Unedig](#). Mae data'n dal i gael eu cyhoeddi ond mae'n awgrymu bod merched, pobl hŷn (ddechrau'r pandemig), pobl iau (wedi hynny), rhai carfanau tras leiafrifol, rhai uwch eu haddysg a rhai sy'n rhentu cartrefi o'r farn bod eu lesiant wedi gostwng yn fwy na'r cyfartaledd o achos Covid-19 a Brexit ([What Works Wellbeing, 2021a](#)).

Mae'r adrannau canlynol yn edrych ar y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â sut mae Covid-19 a Brexit wedi dylanwadu ar amodau materol (incwm a chyfoeth, swyddi ac enillion, a thai) ac ansawdd bywyd (iechyd, cydbwysedd bywyd-gwaith, addysg a sgiliau, ac ansawdd yr amgylchedd), a sut, yn eu tro, y maent wedi arwain at newidiadau mewn lesiant.

3.1. Amodau materol fel ysgogwyr lesiant

Fel y trafodwyd uchod, mae Covid-19 a Brexit wedi rhoi sioc economaidd negyddol i economi Cymru a fydd yn dylanwadu ar amodau materol. Yn ei dro, bydd newidiadau i'r amodau hyn yn arwain at newidiadau i lesiant unigolion a chymunedau.

Incwm a chyfoeth

Mae data'n awgrymu bod incwm cartrefi ar gyfartaledd wedi cwmpo ym mhob rhanbarth o'r Deyrnas Unedig yn 2020, gyda'r gostyngiadau mwyaf yn ne a Chanolbarth Lloegr, a'r gostyngiadau lleiaf yng ngogledd Lloegr a Chymru ([Davenport et al., 2021](#)). Mae hyn wedi golygu bod tua 12.5 miliwn o bobl yn y Deyrnas Unedig yn waeth eu byd yn ariannol oherwydd cyfuniad o'r pandemig a Brexit ([Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020a](#)). (Mae'n bwysig nodi nad yw cyfyngiadau'r data yn ei gwneud hi'n bosibl nodi eu lleoliad daearyddol.) Er mai pobl â lefelau incwm personol isel a chanolig (hyd at £20,000 y flwyddyn) oedd fwyaf tebygol o fod wedi cofnodi gostyngiadau incwm ([Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020a](#)), roedd yr unigolion yr effeithiwyd arnynt yn fwyaf negyddol yn ariannol gan bandemig Covid-19 yn fwy tebygol o fod yn unigolion o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a rhieni - yn enwedig o'r cymunedau hyn - a nododd eu bod yn gorfod defnyddio eu cynilion ar gyfer pryniannau o ddydd i ddydd.

Er gwaethaf hyn, cynyddodd y gymhareb cynilion gyffredinol (cynilion cartrefi fel cyfran o incwm gwario cartrefi) o 8.9% yn chwarter cyntaf 2020 i 25.9% yn ail chwarter 2020. Er i hyn ostwng i 14.3% yn nhrydydd chwarter 2020, cynyddodd eto i 19.9% yn chwarter cyntaf 2021 ([Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021e](#)). Fel y dangosir yn [Ffigur 8](#), mae hyn yn cael ei yrru gan gyfran fawr o aelwydydd cyfoethocach sy'n arbed mwy (47% yn y cwintel incwm uchaf, o'i gymharu â 12% yn y cwintel isaf).

Mae hyn yn awgrymu bod y ddau sioc yn debygol o gynyddu anghydraddoldeb economaidd, sy'n gysylltiedig â sawl agwedd sy'n dylanwadu ar anghydraddoldeb llesiant, gan gynnwys disgwyliad oes (gweler y papur briffio ar **lesiant a chydraddoldeb**). Mae data o 2018 yn awgrymu mai Cymru oedd â'r gymhareb cynilion isaf yn y Deyrnas Unedig, gydag [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20](#) yn nodi bod y ganran uchaf o bobl sy'n byw mewn cartrefi gydag amddifadedd materol (ar gyfer dangosydd cenedlaethol Cymru 19) ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful.

Mae'n ymddangos nad yw'r pandemig wedi effeithio ar ddyled cyfartalog cartrefi, gyda chyfanswm dyledion cartrefi yn y Deyrnas Unedig yn cynyddu ar gyfradd flynyddol o 3.6% ym mis Mawrth 2020 a 3.4% ym mis Mai 2021. Mae hyn o fewn ystod y gyfradd twf flynyddol gyfartalog mewn dyled yn y 2010au ([Francis-Devine, 2021](#)). Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod cartrefi ar incwm is a theuluoedd ar Gredyd Cynhwysol a Chredyd Treth Plant wedi profi cynnydd mewn lefelau dyled ([Sefydliad Joseph Rowntree, 2020](#)). Mae hyn, ar y cyd â llai o gynilion, yn debygol o arwain at anghydraddoldeb. Ymhlith y grwpiau eraill sydd fwyaf tebygol o fod wedi mynd i fwy o ddyled ers dechrau'r pandemig yw rhentwyr, pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, rhieni a gofalwyr, pobl anabl, unigolion sy'n gwarchod, a phobl ifanc.

Swyddi ac enillion


Swyddi yw un o'r ysgogwyr pwysicaf o lesiant unigolion a dyma'r 21^{ain} a'r 22^{ain} [dangosydd cenedlaethol yng Nghymru o ran llesiant](#). Mae cyflogaeth yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar lesiant, tra bod diweithdra yn lleihau llesiant i raddau llawer mwy na dim ond colli incwm. Mae diweithdra yn gysylltiedig ag ymdeimlad is o bwrpas, llai o foddhad mewn bywyd a mwy o orbryder. Yn gyffredinol, mae'r gostyngiad mewn llesiant yn fwy ymhlith dynion a phobl ifanc ac mae'n cynyddu po hiraf y bydd unigolyn yn ddi-waith.

Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod diweithdra yn lleihau llesiant gŵr/gwraig yr unigolyn sy'n ddi-waith, yn enwedig y gwragedd ([What Works Wellbeing, 2017a](#)).

Mae ffigurau diweithdra wedi dechrau adlewyrchu effeithiau Covid-19 a Brexit gyda'i gilydd. Mae data ar gyfer ail chwarter 2021 yn awgrymu bod y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn 4.1%, sy'n is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig sy'n 4.7%. Yn ystod y pandemig, mae'r gyfradd ddiweithdra ymhlith menywod yng Nghymru wedi bod yn is na'r gyfradd ddiweithdra ar gyfer dynion yn gyffredinol. Yn chwarter cyntaf 2021, roedd y gyfradd ddiweithdra ymhlith dynion ar ei uchaf ers trydydd chwarter 2016 ([Ffigur 9](#)), tra bod y gyfradd ddiweithdra ymhlith menywod ar ei lefel isaf erioed. Mae'n ymddangos bod hyn yn mynd yn groes i'r dystiolaeth gynnar fod y pandemig yn effeithio'n fwy negyddol ar fenywod ([Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb, 2021](#)). Adeg ysgrifennu'r papur hwn nid yw'n glir pam, ond un rheswm sy'n cael ei gynnig yw fod menywod wedi cymryd swyddi dros dro, megis ar y rhaglen Profi ac Orlhain yn ystod y pandemig, neu wedi gadael y llafurlu'n llwyr. Mae ffigurau ar gyfer ail chwarter 2021 yn awgrymu bod y darlun wedi dychwelyd i batrymau cyn y pandemig. Ar y llaw arall, mae'r nifer heb ei addasu o hawlwy'r yng Nghymru – sef y rhai sy'n hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol ac yn 'chwilio am waith' ar y pryd – yn dangos cynnydd o 97% o fis Mawrth 2020 (60,375) i fis Awst 2020 (118,905).⁷ Yn ôl rhyw, roedd nifer yr hawlwy'r a oedd yn ddynion wedi cynyddu 100% a menywod 93% yn ystod yr un cyfnod, a oedd yn uwch na'r lefelau a welwyd adeg argyfwng ariannol 2008. Er y gall hyn awgrymu sut gallai ffigurau diweithdra newid, mae'n chwyddo'r ffigurau diweithdra oherwydd ei fod yn cynnwys y rhai sy'n dal i weithio, ar ffyrlo neu sy'n derbyn grantiau eraill ([Rodríguez et al., 2020](#); [Brewer et al., 2020](#)).


⁷ Bu gostyngiad yn nifer yr hawlwy'r ers Awst 2020, i 93,715 ym mis Gorffennaf 2021.

Ffigur 8: Newidiadau yn arbedion unigolion dros yr argyfwng, yn y Deyrnas Unedig, yn ôl cwintel incwm, 3–8 Mehefin 2021



Ffynhonnell: [Resolution Foundation \(2021a\)](#)

Ffigur 9: Cyfradd diweithdra yn y Deyrnas Unedig, Cymru ac yn ôl rhyw



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafur

Er gwaethaf hyn, ni fydd effaith lawn y digwyddiadau hyn ar y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn cael ei theimlo'n llawn nes bydd y cynllun ffyrlo – sef y cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws – wedi dod i ben.

Ar ddechrau'r pandemig, cafodd 30.6% o weithwyr yng Nghymru eu rhoi ar ffyrlo. Roedd hyn yn gyfran is nag yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Er bod y gyfran hon wedi gostwng wrth i'r mesurau gael eu llacio, amcangyfrifwyd bod cyfradd derbyn y cynllun ffyrlo (wedi ei gyfrifo fel canran y swyddi ar ffyrlo) yn 6% yng Nghymru hyd at ganol mis Gorffennaf 2021, sydd eto'n is na'r ffigur ar gyfer y Deyrnas Unedig sy'n 8%. Mae amrywiadau hefyd yn ôl lefel awdurdod lleol: Mae'r gyfradd uchaf (sef 7%) yng Nghonwy (yn enwedig etholaethau Aberconwy) a Sir y Fflint. Mae'r cyfraddau isaf yng Nghaerdydd a'r Cymoedd ac Abertawe, sy'n 4–7% ([Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2021](#)). Mae'n debyg bod cyfradd uwch yn awgrymu cyfran uwch o weithwyr mewn sectorau sydd wedi gorfod cau. Drwy gydol y pandemig, roedd cyfran y gweithwyr ar ffyrlo yn sylweddol uwch mewn awdurdodau lleol gwledig sy'n dibynnu fwyaf ar y sectorau twristiaeth a lletygarwch a lle'r oedd canran uwch o fusnesau gweithredol ar gau dros dro ([Sefydliad Bevan, 2020](#)).

Mae gwaith ymchwil wedi dechrau rhoi sylw effeithiau effaith y cynllun ffyrlo ar y ddau ryw. Ar ddechrau'r pandemig, ar draws pob rhanbarth o'r Deyrnas Unedig roedd ychydig mwy o weithwyr benywaidd ar ffyrlo; ond erbyn diwedd mis Mehefin 2021 roedd ychydig yn fwy o ddynion ar ffyrlo (53.2% o weithwyr ar ffyrlo) ar draws pob rhanbarth ac yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiadau yn nifer y swyddi ar ffyrlo mewn sectorau fel llety a bwyd, fel yr adlewyrchir yn y ffigurau gwaith diweddar. O ystyried sut mae oedran, hil, rhyw a statws teuluol yn rhyngweithio, roedd y bwlch ffyrlo rhwng y rhywiau yn uwch ar gyfer menywod iau a menywod Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ([Grŵp Cyllideb Menywod, 2020](#)), yn ogystal ag ar gyfer rhieni yn gyffredinol, a rhieni sengl a benywaidd yn arbennig ([Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb, 2021](#); [Clery et al., 2021](#)).

Bydd dadansoddiad o'r adroddiadau ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 2021 – a oedd i fod i gael ei gyhoeddi ar 5 Hydref 2021 – yn rhoi golwg fanylach o effaith rhyw y cynllun ffyrlo, gan fod yn rhaid cynnwys gweithwyr ar ffyrlo.

Effeithiau ar lesiant

Mae tystiolaeth wedi dechrau ei gwneud yn bosibl cysylltu'r newidiadau hyn yn y farchnad lafur â lefelau llesiant: mae newidiadau i incwm yn gallu arwain at newidiadau i ymdeimlad unigolyn o bwrpas ac ystyr, rhyngweithio cymdeithasol ac arferion beunyddiol. Yn dilyn cyfnod o grebachu economaidd parhaus, cynyddodd y bwlch llesiant rhwng y cyflogedig a'r di-waith yn ystod 2020. Gallai hyn fod oherwydd lles isel pobl yn dod yn ddi-waith yn ystod y cyfnod hwn a / neu ddirywiad yn lles pobl oedd eisoes yn ddi-waith ([What Works Wellbeing, 2021b](#)), ac sy'n debygol o gael effaith andwyol ar unigolion ac ar berfformiad economaidd dros y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae effaith ffyrlo ar lesiant yn wahanol i bob unigolyn. Canfuwyd ei fod yn codi lles rhieni, yn enwedig menywod, a allai fod wedi bod yn jyglo addysg gartref a gwaith, ond yn gostwng lles y rhai ar yr incwm isaf, a allai fod wedi cael eu hunain ar 'ymyl clogwyn' o ansicrwydd yn ariannol ac yn eu swydd ([Hardoon, 2021](#); [Mind, 2020](#)). Ar ddechrau'r pandemig, roedd y cynllun ffyrlo hefyd yn diogelu ieuchyd meddwl pobl rhag y dirywiad a fyddai wedi dod o ganlyniad i ddiweithdra ([Hardoon, 2021](#)). Ar ben hynny, roedd dros hanner y gweithwyr ar ffyrlo llawn ym mis Mai 2021 yn 45 oed neu'n hŷn, a fydd, heb os, yn effeithio ar eu lles wrth iddynt dreulio mwy o amser o'r gwaith ac ennill llai pan fyddant yn dychwelyd ([Resolution Foundation, 2021b](#)).

Amodau materol fel ysgogwyr llesiant

- **Mae Brexit a Covid-19 wedi cael effeithiau negyddol sylweddol ar incwm, cyfoeth, swyddi ac enillion, sydd yn eu tro wedi gostwng lefelau llesiant.**
- **Mae anghydraddoldeb economaidd yn debygol o gynyddu** ledled y Deyrnas Unedig. Mae hyn oherwydd cwympiadau mwy yn incwm cartrefi aelwydydd incwm isel a chanolig; Cymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; a rhieni – yn enwedig o'r cymunedau hyn; a lefelau cynyddol o ddyled ar gyfer cartrefi incwm is.
- **Cynyddodd ffigurau diweithdra yn ystod 2020**, yn sylweddol ar gyfer dynion yng Nghymru tua diwedd 2020 a dechrau 2021; i'r gwrthwyneb (ac yn annisgwyl), mae'r data diweddaraf yn dangos bod lefelau diweithdra menywod wedi gostwng, er bod data ar gyfer ail chwarter 2021 yn awgrymu dychwelyd i batrymau cyn-bandemig. Fodd bynnag, ni fydd effeithiau pandemig Covid-19 a Brexit yn cael eu hadlewyrchu nes bydd y cynllun ffyrlo yn dod i ben.
- **Cafodd cyfran is o weithwyr eu rhoi ar ffyrlo yng Nghymru nag yng nghaneddloedd eraill y Deyrnas Unedig, er bod hyn yn amrywio o ardal i ardal.** Gwelwyd cyfrannau uwch o weithwyr ar ffyrlo mewn ardaloedd gwledig a threfi arfordirol a oedd yn dibynnu fwyaf ar y sectorau twristiaeth a lletygarwch – yn enwedig menywod, gweithwyr iau a rhieni. Wrth i'r economi a'r gymdeithas ailagor, mae dynion yn cael eu rhoi ar ffyrlo ar gyfradd uwch ac mae ganddynt gyfradd ddiweithdra uwch.
- **Mae'n ymddangos bod y farchnad lafur yn gwella**, er bod gan rai sectorau gyflenwad llafur cyfyngedig. Roedd gweithwyr ifanc yn fwy tebygol o fod allan o waith yn ystod y cyfnod clo. Effeithiwyd yn fwy ar weithwyr hŷn i ddechrau, ond maent yn cymryd mwy o amser i ddychwelyd i'r gwaith.
- **Cynyddodd y bwlch llesiant rhwng y cyflogedig a'r di-waith** yn ystod 2020 a gwelwyd dirywiad bach yn llesiant y rhai a gafodd eu rhoi ar ffyrlo.

3.2. Mesurau ansawdd bywyd fel ysgogwyr llesiant

Mae mesurau ansawdd bywyd yn mesur lles yn gyfannol, sy'n bwysig wrth ystyried effeithiau Covid-19 a Brexit ar draws gwahanol grwpiau a'u heffaith ar anghydraddoldeb (gweler y papur briffio **[llesiant a chydraddoldeb](#)**). Mae Covid-19 a Brexit wedi effeithio ar lawer o agweddau ar fesurau ansawdd bywyd ar lefel unigol a chymunedol, sydd wedi'u cynnwys yn fframwaith yr OECD (gweler [Ffigur 2](#)). Mae'r mesurau hyn felly wedi sbarduno newidiadau o ran lles.

Iechyd

Iechyd corfforol a meddyliol yw'r ffactorau mwyaf sy'n dylanwadu ar les unigolyn, ac mae gan iechyd gwael hunan-gofnodedig gysylltiad cryf â'r lles unigol isaf. Mae'r pandemig, a Brexit yn anuniongyrchol, wedi cael effeithiau negyddol sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth, gan waethygu'r anghydraddoldebau iechyd presennol ([What Works Wellbeing, 2020b](#)). Gellir disgwyl i'r bwlch cynyddol rhwng profiad pobl o iechyd gynyddu anghydraddoldebau o ran lles, ac mae gorgyffwrdd mewn proffiliau risg unigol yn debygol o waethygu'r anghydraddoldebau presennol. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng Nghymru, o ystyried iechyd gwaeth y boblogaeth ar gyfartaledd o'i gymharu â'r Deyrnas Unedig.

Iechyd Corfforol

